

Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

Cadeirydd: Nia Heledd Jones

Cyfarfod Blynyddol Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

1af o Fai 2018

- 1 Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion Cyfarfod Blynyddol 2017.
- 2 Etholwyd Alwyn E Jones yn Gadeirydd am y flwyddyn 2018-19.
- 3 Etholwyd Rhodri Jones yn Is-Gadeirydd am y flwyddyn 2018-19.
- 4 Penodwyd Cynghorwyr i weithredu ar is-bwyllgorau (gweler isod).
- 5 Enwebwyd Huw Pierce Roberts yn gynrychiolydd y Cyngor ar bwyllgor ardal Un Llais Cymru.
- 6 Enwebwyd Huw Antur ac Alwyn E Jones yn gynrychiolwyr ar Bartneriaeth Penllyn.
- 7 Adolygwyd a chadarnhawyd y Rheolau Sefydlog.
- 8 Adolygwyd a chadarnhawyd y Côt Ymddygiad.
- 9 Adolygwyd a chadarnhawyd y Rheoliadau Ariannol.
- 10 Adolygwyd a chadarnhawyd y Polisiâu
 - i. Cydnabyddiaeth Ariannol
 - ii. Defnydd o'r iaith Gymraeg (i'w uwchraddio yn fuan)
 - iii. Amgylcheddol
 - iv. Cyfle Cyfartal
 - v. Polisi Rhyddid Gwybodaeth a Diogelu Data (i'w uwchraddio pan ddaw arweiniad gan Un Llais Cymru)
 - vi. Polisi Pryderon a Chwynion
- 11 Cadarnhawyd parhau gyda'r Cytundeb rhwng y Cyngor Cymuned fel aelod o Bartneriaeth Penllyn â Chyngor Gwynedd.
- 12 Adolygwyd rhestr o eiddo ac asedau'r Cyngor; cytunwyd i ychwanegu hysbysfyrdau'r fynwent.
- 13 Adolygwyd a chadarnhawyd y trefniadau yswiriant.
- 14 Ystyriwyd Cyfrifon y flwyddyn 2017-18. Cymeradwywyd y Ffurflen Flynyddol ar gyfer y flwyddyn Ariannol 2017-18, gan gynnwys Datganiadau Cyfrifyddu ar gyfer Cyngor Cymuned Llanuwchllyn a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31/3/18.
- 15 Cytunwyd i apwyntio Luned Fôn yn Archwilydd Mewnol ar gyfer 2018-19.
- 16 Cadarnhawyd Cofrestr Datganiad Buddiant am y flwyddyn 2017-18.

Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

Cadeirydd: Nia Heledd Jones

- 17 Cadarnhawyd dyddiadau cyfarfodydd 2018-19 (gweler isod)
- 18 Diolchodd Heledd Jones yn ei hadroddiad cloi fel Cadeirydd am y flwyddyn 2018-19 am y cyfle o gael arwain y Cyngor. Diolchodd i bawb am eu cydweithrediad parod ac i'r Swyddogion am eu gwaith a'u cefnogaeth. Cyfeiriodd yn arbennig at y Noson Goffi llwyddiannus, at gynllun 5 mlynedd y Cyngor i uwchraddio a chynnal asedau ac at y gwaith a wnaethpwyd ar gynnal Llwybr y Cei a Llwybr Cae Ceunant. Roedd cael y bontbren dros afon Lliw yn achlysur o bwys i'r gymuned, yn ogystal â'r gwaith a wnaethpwyd - ar ôl dyfal bwysu - i glirio gwely'r afon er mwyn lleihau llifogydd a pheryg ar yr A494. Diolchodd i Huw Antur a'r tîm brwdfrydig a hwyliog fu'n gyfrifol am sicrhau grant i osod paneli dehongli mewn gwahanol fannau yn y gymuned - prosiect a fydd yn cael ei gwblhau dros y flwyddyn nesaf. Hefyd ar y gweill mae ymgais i wneud gwell defnydd o safle bws Tŷ'n Ddôl ac ymdrechion i uwchraddio'r toiledau cyhoeddus. Mae Cyngor Cymuned Llanuwchllyn wedi bod yn weithgar iawn eleni eto ac mae prosiectau ar y gweill ar gyfer y dyfodol. Roedd yn bleser ganddi i drosglwyddo Cadeiryddiaeth y Cyngor i ddwylo medrus Alwyn E Jones

Swyddogaethau 2017-18

Cadeirydd: Alwyn E Jones

Is-gadeirydd: Rhodri Jones

Is-bwyllgor Cyllid: Alwyn E Jones, Huw Antur, Dewi Jones, Alwyn Roberts, Bethan Edwards, Lis Puw

Is-bwyllgor mynwentydd: Heledd Jones, Huw Pierce Roberts, Karl Jones, Arwel LL Jones, Alan Jones Evans, Bethan Edwards, Lis Puw

Cynrychiolydd i gyfarfodydd ardal Un Llais Cymru: Huw P Roberts

Cynrychiolydd ar Fwrdd Llywodraethol Ysgol O M Edwards: Alwyn Roberts

2 gynrychiolydd ar Bartneriaeth Penllyn: Huw Antur, Alwyn E Jones (hefyd yn gyfarwyddwyr Cwmni PPP)

Dyddiadau cyfarfodydd 2018-19:

3/4/18	6/11/18
1/5/18	4/12/18
5/6/18	8/1/19
3/7/18	5/2/19
4/9/18	5/3/19
2/10/18	2/4/19